St. Fagans Community Council

NEWSLETTER – WINTER 2025

Councillor Vacancy

As advertised on our noticeboards and website, we are still seeking a new member for the Community Council and would be particularly interested in hearing from candidates living in the Maes-Y-Deri/ Goitre Fach areas.

Further information can be found on our website and Facebook page.

If you are interested in applying, please forward a letter outlining the experience and personal qualities you would bring to the role, and the contribution you believe you could make, serving as a member of the Community Council to clerk@stfaganscc.gov.wales.

Coed Bychan Protected

A recent planning application, which proposed closing a public footpath through Coed Bychan, has been halted through the planning process, with significant influence from members of the community, and objections raised by the Community Council.

The second stage of development is underway at the field south of Cae St Fagans. The developers asked for planning permission to utilise a public footpath (known as St. Fagans 5) to transfer building materials from a compound on the other side of the wood. This would have resulted in the closure of the footpath to the public for the duration of the 4-5 year project. It would also cause damage, planned, and otherwise, to the woodland and the wildlife within it.



Jonathan Clode



Thomas Briscombe

St. Fagans Community Council Planning Committee had opposed the plan, but the effort made by members of the community was particularly significant. As a result, on 27th October 2025, the developer resubmitted their plans, effectively withdrawing any activity within the wood.

St. Fagans CC would like to thank everybody who has taken the time to contribute to this matter, whether it is filing an objection or just spreading the word. Special recognition is deserved by Jonathan Clode, for leading the community via social media, and Thomas Briscombe and Lee Williams, for pursuing the online government petition.

Westfield Park Ideas

We will be holding a public meeting in April 2026 to present the next steps towards implementing some of the suggestions received for improving Westfield Park following the questionnaires circulated earlier this year, and in conjunction with Cardiff Council.

Details will be posted on the Community Council's website, noticeboards, and Facebook page, in due course.

Theft

A resident has had two chairs stolen from a small open porch, which was not easily visible from the road. It is thought that the thieves were looking for parcel deliveries left at the front door. This does not appear to be an isolated incident.

Please take care when you are expecting deliveries and, if possible, find somewhere secure for them to be left.

Roads and Pavements



The Community Council is continually raising road and pavement issues with Cardiff Council, particularly with regards to the condition of Castle Hill, due to spilt concrete and numerous deep potholes.

If you have any problem areas in your locality, please let us know by contacting: clerk@stfaganscc.gov.wales.

It would be helpful if you could include a picture(s) along with a What3Words reference, or postcode of the location.

Season's Greetings from all at St. Fagans Community Council

Speeding



Earlier in the year the Community Policing Team carried out speed monitoring, within St. Fagans Village. The monitoring was carried out over 4 separate sessions, lasting an hour or less each time.

Across the sessions, a total of 112 cars were noted to be travelling in excess of 25mph, with some exceeding twice the 20mph speed limit and setting an average of around 30mph. Fortunately, very few of those found to be speeding were local (5). The police intend to continue undertaking checks at random intervals.

Although the Community Council has asked for average speed cameras to be sited, the request has been declined as the criteria for placement has not been met.

Rhydlafar TLC

Rhydlafar TLC has welcomed its youngest member this year!



The park looks fantastic, thanks to the work undertaken by the volunteers, and it is greatly appreciated.

Thanks to Councillor John Hughes spotting some unused planters in the Parks depot, there are now two new planters in Rhydlafar - filled with a flowering ornamental tree and lots of daffodils. The planters should look lovely in the spring.



Thank you very much to Councillor Hughes for organising all of this.

Rhydlafar TLC has also planted bulbs around the park with more due to be planted on the other two greens in Rhydlafar shortly.

If you would like to be part of the group, please contact Councillor Bethan Devonald on: **07801 896310** or e-mail: bdevonald@stfaganscc.gov.wales.

Cardiff Replacement Local Development Plan (RLDP)



Image from Cardiff Council

The RLDP will be considered by the Economy and Culture Scrutiny Committee at their meeting on 18 November. The recommendation to the full Cardiff Council is that they accept the Plan, which is unchanged from that issued for consultation earlier in the year.

If Cardiff Council accepts the Plan, it will then be submitted to the Welsh Assembly Government. Following this, the plan will be examined by an independent Planning Inspector. The inspection is expected to start in early Spring, 2026.

St. Fagans Cricket Club



St. Fagans Cricket Club has started a Women's Soft Ball Team and is welcoming new members who want to engage in a sport that brings fun, fitness, and new friends. No previous experience of cricket is required to join.

The team started in May and has around 24 women who regularly meet and play. Ages currently range from 17-60 and all ages are welcome. The aim is to encourage women who may have become isolated, or lost out on fitness, to join, grow our numbers, and have fun.





We also want to encourage more girls to play. Hopefully, we will grow to have a women's hard ball cricket team, as well as encouraging some who may wish to participate in the County Pathway Programme.

Anybody interested in joining can contact the club via www.stfagans.play-cricket.com.

Cae St. Fagans

For residents in Cae St Fagans this is just a short update regarding the adoption of the site by PlasCo, and the local authority, and the arrangements for dealing with issues on the estate, but outside our homes and gardens.

Residents may notice activity on the estate from two contractors: TR33 and Monmouthshire. TR33 is actively preparing the site to a standard where it can be adopted by the PlasCo, and this will then trigger the commencement of maintenance payments. It has been confirmed that Plasdŵr Company Limited will be taking responsibility for the first areas of public open space on 1st April 2026.



TR33 will be responsible for landscaping around the outside edge of the estate, the play area and the sustainable drainage system area (more details are available in your management plan from Redrow).

Monmouthshire has adopted the local authority function accepting responsibility for bins, roadways and pavements (again, see the management plan). There is no current anticipated transfer for these services to the local authority. Often, a transfer of this nature can take years to transpire.

If you see anything that needs to be addressed **IN THESE COMMON AREAS**, you can report it via email to the single point of contact below. Please ensure you include plenty of detail, especially regarding the location, and please consider using a photo. **southwales@newhomecare.co.uk**

School news



The Governors of St. Fagans Church in Wales School are pleased to announce the appointment of Bethan Whitehead as the new Headteacher, with effect from January 2026. The Governors, staff and pupils welcome Bethan to the school and look forward to a successful working partnership for many years to come.

The Governors also want to express their thanks and best wishes to Sharon Harvey, Acting Headteacher, who is retiring soon, having taught at the school for over 30 years.

Staff and pupils at St Fagans CW Primary School are very excited about an upcoming visit from Chaplin's Theatre Company and their performance of Dick Whittington on Friday 5th December. They are particularly grateful to the Community Council for a generous grant towards the cost of this. The 'cost of living' crisis means that many working families can struggle to fund enrichment activities, so the school is delighted that this grant will ensure all children can enjoy an exciting Christmas treat in school.

Coed Caerdydd

We are delighted that additional trees have been allocated to us from Coed Caerdydd for the orcahrd, St. Fagans Park and Rhydlafar Park. We will publish the dates for planting in due course, and would welcome volunteers to help settle in the new trees.

Litter Picking



The Community Council was delighted that the last litter pick gathered 20 Bags of rubbish and wish to thank all the volunteers who helped.

We are aware, and grateful, that many of you pick litter in addition to organised collections, and would encourage you to register with Keep Wales Tidy or Keep Cardiff Tidy, who can help with the supply of equipment.

Phone Box

Following the adoption of the telephone box, the Community Council is awaiting confirmation from the Planning Department that plans to renovate the box (using it as a book, plant, and seed exchange) can proceed.

If anyone would like to be involved in the upkeep of the box, please e-mail the Clerk.

John's Gardening Corner



Daffodils should be planted by now, but late planting can be successful. Lawn care is important especially addressing those bare patches. Weeds are still growing; hoeing is an easier way to avoid back ache. For those with a garden shed, this is an excellent time for checking over tools/machinery and, especially, the lawn mower.

January - if the day is fine - get out into it. You will feel better for the fresh air. Obviously, January is not a month for outdoor sowing/planting. You can try starting some summer cauliflowers in a frost free greenhouse or cold frame. Another task is to build a traditional runner bean trench - 1 feet deep x 1 feet wide. Runner beans like a rich damp soil. Line the trench with newspaper then add kitchen waste until nearly full and then cover with soil. Any seed potatoes should be stored in a cool frost free area so they can chit up. Usually, mid to end of March is the right time to plant. First earlies grow in approximately 10 weeks, 2nd earlies 13 weeks, and the main crop in 20 weeks. February is often the coldest month of the year; therefore, February tasks will be dependent on the weather. To warm the soil up, you can cover various areas with black plastic sheets. Replace broken panes in the greenhouse, check the clips are in place etc., then give it a good wash down with Jeyes fluid. It is also time for the cloche and cold frame to start off the broad beans and early peas in pots with multipurpose compost under the cloche. Also, try summer cabbage and cauliflowers, hardy lettuce, rocket and radish – a cold frame will suffice. Garlic cloves can also be planted as they like a cold spell, so any frost should not harm them.

Whatever the size of your garden or allotment, you can grow your own vegetables. Even if you only have a balcony or patio, you can grow more than you think possible in pots, containers and raised beds.

Happy gardening and keep up the good work!

Contact

If you would like to contact the Community Council, you can:

Visit our website: https://stfaganscc.gov.wales/

E-mail: clerk@stfaganscc.gov.wales

Visit our Facebook page: www.facebook.com/StFagansCC

Or contact our Community Councillors:

Councillor Chris O'Brien (Chair)
Mobile: 07877 187347
E-mail: cobrien@stfaganscc.gov.wales

Councillor Bethan Devonald (Vice-chair)
Mobile: 07801 896310
E-mail: bdevonald@stfaganscc.gov.wales

Councillor Frances Lewis (Planning Chair)
Mobile: 07972 134658
E-mail: flewis@stfaganscc.gov.wales

Councillor John Hughes
Mobile: 07799 434994
E-mail: jhughes@talktalk.net

Councillor John Griffiths
Mobile: 07939 606715
E-mail: jgriffiths@stfaganscc.gov.wales

Councillor Aneka Rao
E-mail: arao@stfaganscc.gov.wales

Councillor Clare Lewis
Mobile: 07759 171749
E-mail: clewis@stfaganscc.gov.wales

Councillor Paul McCarthy
E-mail: pmccarthy@stfaganscc.gov.wales

You can contact your local Cardiff Council Councillors as follows:

Councillor Andrea Gibson
Mobile: 07970 168054
Email: andrea.gibson@cardiff.gov.uk

Councillor Catriona Brown-Reckless
Mobile: 07977 395528
Email: Catriona.BrownReckless@cardiff.gov.uk

Councillor Rhys Owain Livesy
Mobile: 07977 395622
E-mail: rhys.livesy@cardiff.gov.uk

Angen Cynghorydd

Fel yr hysbysebwyd ar ein hysbysfyrddau a'n gwefan, rydym yn dal i chwilio am aelod newydd i'r Cyngor Cymuned a byddai gennym ddiddordeb arbennig mewn clywed gan ymgeiswyr sy'n byw yn ardaloedd Maes-y-Deri/Goetre Fach.

Mae rhagor o wybodaeth ar gael ar ein gwefan a'n tudalen Facebook.

Os oes gennych ddiddordeb mewn ymgeisio, anfonwch lythyr yn amlinellu'r profiad a'r rhinweddau personol y byddech chi'n eu cyflwyno i'r rôl, a'r cyfraniad rydych chi'n credu y gallech ei wneud fel aelod o'r Cyngor Cymuned, i clerk@stfaganscc.gov.wales.

Diogelu Coed Bychan

Mae cais cynllunio diweddar, oedd yn cynnig cau llwybr troed cyhoeddus drwy Goed Bychan, wedi cael ei atal drwy'r broses gynllunio, drwy ddylanwad sylweddol gan aelodau o'r gymuned, a gwrthwynebiadau a godwyd gan y Cyngor Cymuned.



Mae ail gam y datblygiad yn mynd rhagddo ar y cae i'r de o Gae Sain Ffagan. Gofynnodd y datblygwyr am ganiatâd cynllunio i ddefnyddio llwybr troed cyhoeddus (llwybr Sain Ffagan 5) i gludo deunyddiau adeiladu o gompwnd ar ochr arall y coed. Byddai hyn wedi golygu cau'r llwybr troed i'r cyhoedd am gyfnod y prosiect, sef 4-5 mlynedd. Byddai hefyd yn achosi difrod, bwriadol a damweiniol, i'r coetir a'i fywyd gwyllt.



Roedd Pwyllgor Cynllunio Cyngor Cymuned Sain Ffagan wedi gwrthwynebu'r cynllun, ond roedd yr ymdrech a wnaed gan aelodau'r gymuned yn arbennig o ddylanwadol. O ganlyniad, ar 27 Hydref 2025, ailgyflwynodd y datblygwyr eu cynlluniau, gan ddileu unrhyw weithgaredd yn y coed i bob pwrpas.

Hoffai CC Sain Ffagan ddiolch i bawb sydd wedi rhoi o'u hamser i gyfrannu at y mater hwn, boed hynny drwy gyflwyno gwrthwynebiad neu wrth ledaenu'r gair. Mae Jonathan Clode yn haeddu cydnabyddiaeth arbennig am arwain y gymuned drwy'r cyfryngau cymdeithasol, a Thomas Briscombe a Lee Williams, am eu gwaith gyda deiseb ar-lein y llywodraeth.

Syniadau Parc Westfield

Byddwn yn cynnal cyfarfod cyhoeddus ym mis Ebrill 2026 i gyflwyno'r camau nesaf yn y gwaith o weithredu rhai o'r awgrymiadau sydd wedi dod i lawr ar gyfer gwella Parc Westfield, yn sgil yr holiaduron a gylchredwyd yn gynharach eleni, ac ar y cyd â Chyngor Caerdydd.

Bydd manylion yn cael eu rhoi ar wefan, hysbysfyrddau, a thudalen Facebook y Cyngor Cymuned, maes o law.

Lladrad

Mae dwy gadair wedi'u dwyn o gyntedd bach agored un preswylydd, nad oedd yn hawdd ei weld o'r ffordd. Credir bod y lladron yn chwilio am barseli oedd wedi'u gadael wrth ddrysau blaen cartrefi. Mae'n ymddangos bod hyn yn rhan o batrwm o ladradau.

Byddwch yn ofalus pan fyddwch yn disgwyl parseli a threfnwch eu bod yn cael eu gadael yn rhywle diogel os oes modd.

Ffyrdd a Phalmentydd



Mae'r Cyngor Cymuned yn codi problemau ffyrdd a phalmentydd gyda Chyngor Caerdydd yn barhaus, yn enwedig o ran cyflwr Castle Hill, oherwydd holltau yn y concrit a cheubyllau.

Os oes ardaloedd sy'n achosi problemau yn eich ardal, rhowch wybod i ni drwy gysylltu â: clerk@stfaganscc.gov.wales. **Byddai'n ddefnyddiol pe gallech gynnwys llun(iau) ynghyd â chyfeirnod What3Words, neu god post y lleoliad.**

Cyfarchion y Tymor gan Gyngor Cymuned Sain Ffagan

Goryrru



Yn gynharach eleni gwnaeth y Tîm Plismona Cymunedol waith monitro cyflymder ym Mhentref Sain Ffagan. Gwnaed y gwaith monitro mewn 4 sesiwn ar wahân, yn para awr neu lai bob tro.

O blith y sesiynau i gyd, gwelwyd bod 112 o geir yn teithio dros 25mya, gyda rhai dros ddwbl y terfyn cyflymder o 20mya, ac ar ryw 30mya ar gyfartaledd. Yn ffodus, ychydig iawn o'r rhai oedd yn goryrru oedd yn bobl leol (5). Mae'r heddlu'n bwriadu parhau i gynnal gwiriadau ar hap.

Er bod y Cyngor Cymuned wedi gofyn am gamerâu i fesur cyflymder cyfartalog, mae'r cais wedi'i wrthod gan nad yw'r meini prawf ar gyfer camerâu o'r fath wedi'u bodloni.

TLC Rhydlafar



Mae TLC Rhydlafar wedi croesawu ei aelod ieuengaf eleni!

Mae'r parc yn edrych yn wych, diolch i waith y gwirfoddolwyr, ac fe'i gwerthfawrogir yn fawr.

Gan i'r Cynghorydd John Hughes sylwi ar flychau plannu segur yn nepo'r Parciau, mae gan Rydlafar bellach ddau flwch blodau ysblennydd – gyda choeden addurniadol flodeuog a llawer o gennin Pedr. Byddan nhw'n wledd i'r llygad erbyn y gwanwyn. Diolch yn fawr iawn i'r Cynghorydd Hughes am drefnu hyn oll.



Mae Rhydlafar hefyd wedi plannu bylbiau yn y parc gyda mwy i'w plannu ar ddau lawnt arall Rhydlafar cyn bo hir.

Os hoffech fod yn rhan o'r grŵp, cysylltwch â'r Cynghorydd Bethan Devonald ar:
07801 896310 neu e-bostiwch:
bdevonald@stfaganscc.gov.wales.

Cynllun Datblygu Lleol Newydd Caerdydd (CDLlN)



Bydd y CDLlN yn cael ei ystyried gan Bwyllgor Craffu'r Economi a Diwylliant yn eu cyfarfod ar 18 Tachwedd. Yr argymhelliad i Gyngor llawn Caerdydd yw eu bod yn derbyn y Cynllun, sydd heb newid o'r hyn a gyhoeddwyd ar gyfer yr ymgynghoriad yn gynharach yn y flwyddyn.

Os bydd Cyngor Caerdydd yn derbyn y Cynllun, yna bydd yn cael ei gyflwyno i Lywodraeth Cymru. Wedyn, bydd y cynllun yn cael ei archwilio gan Arolygydd Cynllunio annibynnol. Disgwylir i'r arolygiad ddechrau yn gynnar yn Ngwanwyn 2026.

Clwb Criced Sain Ffagan



Mae Clwb Criced Sain Ffagan wedi dechrau Tîm Pêl Meddal i Fenywod ac mae'n croesawu aelodau newydd sydd eisiau cymryd rhan mewn camp sy'n dod â hwyl, ffitrwydd a ffrindiau newydd yn ei sgil. Nid oes angen profiad criced blaenorol i ymuno.



Dechreuodd y tîm ym mis Mai ac mae ganddo tua 24 o fenywod sy'n cwrdd ac yn chwarae yn rheolaidd. Ar hyn o bryd mae oedran yr aelodau'n amrywio o 17-60 ac mae croeso i bob oedran. Y nod yw annog menywod a allai fod wedi eu hynysu, neu sydd wedi colli cyfleoedd i weithio ar eu ffitrwydd, i ymuno, cynyddu ein niferoedd, a chael hwyl.



Rydyn ni hefyd eisiau annog mwy o ferched i chwarae. Y gobaith yw y byddwn yn tyfu digon i allu creu tîm criced pêl galed i fenywod, yn ogystal ag annog rhai a allai fod yn dymuno cymryd rhan yn Rhaglen y Llwybr Criced Sirol.

Gall unrhyw un sydd â diddordeb mewn ymuno gysylltu â'r clwb trwy www.stfagans.play-cricket.com.

Cae Sain Ffagan

Dyma ddiweddariad byr i drigolion Cae Sain Ffagan ynglŷn â mabwysiadu'r safle gan PlasCo, a'r awdurdod lleol, a'r trefniadau ar gyfer delio â phroblemau ar yr ystâd, y tu hwnt i'n cartrefi a'n gerddi.

Efallai y bydd trigolion yn sylwi ar weithgarwch ar yr ystâd gan ddau gontractwr: TR33 a Monmouthshire. Mae TR33 yn paratoi'r safle at safon lle gall y PlasCo ei fabwysiadu, a bydd hyn wedyn yn sbardun taliadau cynnal a chadw. Cadarnhawyd y bydd Plasdŵr Company Limited yn cymryd cyfrifoldeb dros y mannau agored cyhoeddus cyntaf ar 1 Ebrill 2026.



Bydd TR33 yn gyfrifol am dirlunio ymyl allanol yr ystâd, yr ardal chwarae ac ardal y system ddraenio gynaliadwy (mae'r manylion yn eich cynllun rheoli gan Redrow).

Mae Monmouthshire wedi mabwysiadu swyddogaeth yr awdurdod lleol gan dderbyn cyfrifoldeb am finiau, ffyrdd a phalmentydd (gweler y cynllun rheoli). Nid oes disgwyl trosglwyddo'r gwasanaethau hyn i'r awdurdod lleol ar hyn o bryd. Yn aml, gall trosglwyddiad fel hyn gymryd blynyddoedd i ddigwydd.

Os ydych chi'n gweld unrhyw beth sy'n achosi pryder **YN YR ARDALOEDD CYFFREDIN HYN**, gallwch roi gwybod amdano trwy e-bost i'r pwynt cyswllt unigol isod. Gwnewch yn siŵr eich bod yn cynnwys digon o fanylion, yn enwedig ynglŷn â'r lleoliad, ac ystyriwch ddefnyddio llun. **southwales@newhomecare.co.uk**

Newyddion Ysgolion



Mae'n bleser gan Lywodraethwyr Ysgol yr Eglwys yng Nghymru Sain Ffagan gyhoeddi bod Bethan Whitehead wedi'i phenodi'n Bennaeth newydd, o Ionawr 2026 ymlaen. Mae'r Llywodraethwyr, y staff a'r disgyblion yn croesawu Bethan i'r ysgol ac yn edrych ymlaen at bartneriaeth lwyddiannus am flynyddoedd lawer.

Mae'r Llywodraethwyr hefyd eisiau mynegi eu diolch a'u dymuniadau gorau i Sharon Harvey, y Pennaeth Dros Dro, sy'n ymddeol cyn bo hir, ar ôl dysgu yn yr ysgol am 30 mlynedd a mwy.

Mae staff a disgyblion Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru Sain Ffagan yn llawn cyffro am ymweliad gan Gwmni Theatr Chaplin a'u perfformiad o Dick Whittington ar ddydd Gwener 5 Rhagfyr. Maent yn arbennig o ddiolchgar i'r Cyngor Cymuned am grant hael tuag at gost hyn. Mae'r argyfwng 'costau byw' yn golygu bod llawer o deuluoedd sy'n gweithio yn cael trafferth ariannu gweithgareddau cyfoethogi, felly mae'r ysgol yn falch iawn y bydd y grant hwn yn sicrhau bod pob plentyn yn gallu mwynhau digwyddiadau Nadolig cyffrous yn yr ysgol.

Coed Caerdydd

Rydym wrth ein bodd bod rhagor o goed wedi'u dyrannu i ni gan Goed Caerdydd ar gyfer y berllan, Parc Sain Ffagan a Pharc Rhydlafar. Byddwn yn cyhoeddi'r dyddiadau plannu maes o law, a byddem yn croesawu gwirfoddolwyr i helpu'r coed newydd i setlo.

Casglu Sbwriel



Roedd y Cyngor Cymuned wrth eu bodd bod 20 sach o sbwriel wedi'u casglu yn y sesiwn codi sbwriel ddiweddar ac mae am ddiolch i'r holl wirfoddolwyr a roddodd help llaw.

Rydym yn gwybod bod llawer ohonoch yn casglu sbwriel ar eich liwt eich hunain, yn ogystal â'r casgliadau sydd wedi'u trefnu, ac yn ddiolchgar iawn i chi. Byddem yn eich annog i gofrestru gyda Cadwch Gymru'n Daclus neu Cadwch Gaerdydd yn Daclus, a all helpu gyda chyflenwi offer.

Ciosg Ffôn

Ar ôl mabwysiadu'r ciosg ffôn, mae'r Cyngor Cymuned yn aros am gadarnhad gan yr Adran Gynllunio y gall cynlluniau i adnewyddu'r blwch (i'w ddefnyddio fel man i gyfnewid llyfrau, planhigion a hadau) fynd rhagddynt.

Os hoffai unrhyw un helpu gyda chynnal a chadw'r ciosg, anfonwch e-bost at y Clerc.

Cornel Arddio John



Dylai Cennin Pedr fod wedi'u plannu erbyn hyn, ond gellir llwyddo wrth blannu'n hwyr. Mae gofalu am lawntiau yn bwysig yn enwedig o ran mynd i'r afael â'r mannau sydd wedi colli'u gwair. Mae chwyn yn dal i dyfu; mae defnyddio fforch â choes hir yn haws na phlygu. I'r sawl sydd â sied, mae hon yn adeg wych i wirio offer/peiriannau, y peiriant torri gwair yn enwedig.

Ionawr – pan fydd y tywydd yn fwynaidd, ewch allan i'w fwynhau. Bydd yr awyr iach yn gwneud lles i chi. Yn amlwg, dyw Ionawr ddim yn fis i hau/plannu yn yr awyr agored. Gallwch roi cynnig ar ddechrau blodfresych yr haf mewn tŷ gwydr neu ffrâm oer all wrthsefyll rhew. Tasg arall yw adeiladu ffos ar gyfer ffa dringo - 1 droedfedd o ddyfnder x 1 troedfedd o led. Mae ffa dringo yn hoffi pridd llaith cyfoethog. Leiniwch y ffos gyda phapur newydd ac yna rhowch wastraff cegin ynddi ac yna ei gorchuddio â phridd. Dylid storio unrhyw datws hadu mewn ardal oer heb rew fel y gallant ddechrau egino. Fel arfer, canol i ddiwedd mis Mawrth yw'r adeg iawn i blannu. Mae'r tatws cynnar cyntaf yn tyfu mewn tua 10 wythnos, yr ail mewn 13 wythnos, a'r prif gnwd mewn 20 wythnos. Chwefror yn aml yw mis oeraf y flwyddyn; felly, bydd tasgau Chwefror yn dibynnu ar y tywydd. I gynhesu'r pridd, gallwch roi gorchudd plastig du ar wahanol rannau o'r ardd. Atgyweiriwch baneli sydd wedi torri yn y tŷ gwydr, gwiriwch fod y clipiau yn eu lle ac ati, yna golchwch y tŷ gwydr gyda hylif Jeyes. Mae hefyd yn bryd defnyddio'r closhis a'r fframiau oer i ddechrau'r ffa a'r pys cynnar mewn potiau gyda chompost amlbwrpas o dan y closhis. Hefyd, rhowch gynnig ar fresych a blodfresych yr haf, letys, roced a radis gwydn – bydd ffrâm oer yn ddigon. Gellir plannu clofau garlleg hefyd gan eu bod yn hoffi cyfnodau oer, felly ddylai rhew ddim fod yn broblem iddyn nhw.

Beth bynnag yw maint eich gardd neu'ch rhandir, gallwch dyfu llysiau. Hyd yn oed os mai dim ond balconi neu patio sydd gennych, gallwch dyfu mwy nag y meddyliech chi mewn potiau, cynwysyddion a gwelyau uchel.

Mwynhewch y garddio ac ymlaen â'r gwaith da!

Cysylltu

Gallwch gysylltu â'r Cyngor Cymuned drwy:
Fynd i'n gwefan: https://stfaganscc.gov.wales/

E-bostio: clerk@stfaganscc.gov.wales

Mynd i'n tudalen Facebook:
www.facebook.com/StFagansCC

Neu gallwch gysylltu â'n Cynghorwyr Cymuned:

Y Cynghorydd Chris O'Brien (Cadeirydd)
Ffôn symudol: 07877 187347
E-bost: cobrien@stfaganscc.gov.wales

Y Cynghorydd Bethan Devonald (Is-gadeirydd)
Ffôn symudol: 07801 896310
E-bost: bdevonald@stfaganscc.gov.wales

Y Cynghorydd Frances Lewis (Cadeirydd Cynllunio)
Ffôn symudol: 07972 134658
E-bost: flewis@stfaganscc.gov.wales

Y Cynghorydd John Hughes
Ffôn symudol: 07799 434994

Y Cynghorydd John Griffiths
Ffôn symudol: 07939 606715
E-bost: jgriffiths@stfaganscc.gov.wales

Y Cynghorydd Aneka Rao
E-bost: arao@stfaganscc.gov.wales

Y Cynghorydd Clare Lewis
Ffôn symudol: 07759 171749
E-bost: clewis@stfaganscc.gov.wales

Y Cynghorydd Paul McCarthy
E-bost: pmccarthy@stfaganscc.gov.wales

Gallwch gysylltu â'ch Cynghorwyr lleol yng Nghyngor Caerdydd fel a ganlyn:

Y Cynghorydd Andrea Gibson
Ffôn symudol: 07970 168054
E-bost: andrea.gibson@caerdydd.gov.uk

Y Cynghorydd Catriona Brown-Reckless
Ffôn symudol: 07977 395528
E-bost:
Catriona.BrownReckless@caerdydd.gov.uk

Y Cynghorydd Rhys Owain Livesy
Ffôn symudol: 07977 395622
E-bost: rhys.livesy@caerdydd.gov.uk